# PWYLLGOR CRAFFU ADNODDAU

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod o Bell, 21 Ionawr, 2026.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn bresennol: Y Cynghorydd E. Goodjohn (Is-gadeirydd yn y Gadair); Y Cynghorwyr G.M. Ball, S. Campbell, G.D.D. Carroll, P. Drake, R. Fisher, C.P. Franks, E.J. Goodjohn, Dr. I.J. Johnson, B. Loveluck-Edwards, J.M. Norman a N.J. Wood.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorwyr L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau), C.M. Cowpe a J. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd J. Protheroe (Cadeirydd).

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – Y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd, 2025 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU O FUDDIANT –

Datganodd y Cynghorydd G.D.D. Carroll fuddiant personol yn Eitem Agenda Rhif 4 – Monitro Refeniw Chwarter 2 2026/27 (CYF) – mewn perthynas â chyllid ysgolion, gan eu bod yn Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol.

EITEM AGENDA 4. MONITRO REFENIW CHWARTER 2 2025/26 (CYF) –

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi cyfeiriad y Cabinet a'r adroddiad, gan gynnwys y mesurau ariannol a gymerwyd ac a gynigiwyd.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r adroddiad, ac i drafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 5. MONITRO CYFALAF AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 30 MEDI 2025 (CYF) –

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi cyfeiriad y Cabinet a'r adroddiad Monitro Cyfalaf.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r adroddiad, ac i drafodaethau yn y cyfarfod

EITEM AGENDA 6. STRATEGAETH BUDDSODDI CYFALAF DDRAFFT 2026/27 A CHYNIGION RHAGLEN GYFALAF CYCHWYNNOL 2026/27 I 2030/31 (CYF) –

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi cyfeiriad y Cabinet a'r adroddiad ar y Strategaeth Buddsoddi Cyfalaf Ddrafft 2026/27 a Chynigion Rhaglen Gyfalaf Gychwynnol 206/27 i 2030/31.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r adroddiad, ac i drafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 7. MATER A BENDERFYNWYD YN FRYS GAN Y CADEIRYDD –

PENDERFYNWYD – Y dylid ystyried y mater canlynol a benderfynodd y Cadeirydd yn frys am y rheswm a roddir o dan y pennawd cofnod.

EITEM AGENDA 7(i) POLISI CYFLOG 2026/27 (CYF) –
**(Brys oherwydd bod angen i'r mater gael ei ystyried gan y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 9 Mawrth, 2026)**

ARGYMHELLWYD – GAN nad oedd unrhyw sylwadau na argymhellion ffurfiol gan y Pwyllgor Craffu Adnoddau, y dylid ystyried y Polisi Cyflogau fel un sydd wedi'i gyfeirio i'w ystyried a'i gymeradwyo'n derfynol gan y Cyngor Llawn.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr eitem a'r trafodaethau yn y cyfarfod, ac er mwyn galluogi cyfeirio'r mater yn effeithlon i'r Cyngor Llawn.